

## PWY YDYM NI

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yw rhwydwaith y DU o ffermydd cymunedol, gerddi a mannau tyfu. Ein gweledigaeth yw gweld pobl a chymunedau yn cyrraedd eu potensial llawn trwy dyfu bwyd a gweithgareddau sy'n seiliedig ar natur fel rhan o fywyd bob dydd. Ein cenhadaeth yw gwella iechyd a lles unigolion, cymunedau a'r amgylchedd trwy dyfu bwyd a gweithgareddau sy'n seiliedig ar natur.

Gyda'n gilydd, rydym yn grymuso pobl i gymryd tir a'i drawsnewid yn fannau sy'n hybu iechyd a lles, cysylltiadau cymdeithasol, yn gwella mynediad cyfartal at natur ac yn meithrin gwydnwch. Ff&GC yw'r seilwaith sy'n cysylltu, yn curadu ac yn ehangu gwaith cymunedau i greu newid cadarnhaol wedi'i seilio ar y dystiolaeth ddiweddaraf ac arfer byd go iawn.

Credwn fod pob cymuned yn haeddu lle awyr agored a gweithgareddau sy'n cysylltu pobl â lle a natur. Gyda'n gilydd, gallwn wella ein lles, meithrin ecwiti, meithrin gwydnwch hinsawdd, a mynd i'r afael â'r nifer o heriau cydgyssylltiedig yr ydym i gyd yn eu hwynebu.

## BETH YW'R CYD-DESTUN?

Mae ein cymunedau'n wynebu llawer o heriau – iechyd gwael, newid hinsawdd, colli natur, datgysylltiad ac unigrwydd, a chost byw. Mae'r pwysau cynyddol hyn yn rhoi straen ar gymunedau ac yn dyfnhau anghydraddoldeb.

Mae ffermydd, gerddi, a mannau tyfu dan arweiniad y gymuned ac ar gyfer y gymuned yn cynnig ymateb pwerus. Pan fydd cymunedau'n cymryd rheolaeth o fannau ac yn eu rheoli gyda'i gilydd, gallant feithrin iechyd a lles, cryfhau cysylltiadau cymdeithasol, cysylltu â natur, meithrin balchder yn y filltir sgwar a chynyddu gwydnwch lleol.

Mewn byd ansicr, mae'r rhwydwaith yn dod yn fwy hanfodol. Mae Ff&GC yn hwyluso cysylltiadau sy'n grymuso cymunedau - o ddiddordeb a daearyddol - ledled y DU i gydweithio, rhannu adnoddau, ac eiriol dros y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i wynebu heriau presennol a heriau'r dyfodol fel mudiad.

## EIN TRI NOD STRATEGOL

Er mwyn cyflawni potensial Ff&GC, byddwn yn canolbwyntio ar dri nod allweddol dros y 5 mlynedd nesaf.

### 1. CRYFHOU'R MUDIAD

I WNEUD Y MWYAF O BOTENSIAL FFERMYDD, GERDDI A FFERMYDD DAN ARWEINIAD Y GYMUNED A MANNAU TYFU FEL GRYM AR GYFER GWYDNWCH, CYFIAWNDER CYMDEITHASOL, CYFIAWNDER HINSAWDD, IECHYD - GAN RYMUSO A CHRYFHOU EIN RHWYDWAITH FEL MUDIAD DROS NEWID.

#### **Rhwydwaith dosbarthedig datganoledig**

Mae Ff&GC yn rhwydwaith dosbarthedig sydd wedi ymrwymo i bwrpas cyffredin. Mae ein perthnasoedd yn ddwyffordd ac yn gydweithredol, gydag aelodau'n gweithio tuag at nodau cyffredin ac yn cefnogi'r mudiad ehangach.

#### **Y curadur**

Ff&GC yw'r curadur a'r cysylltydd, sy'n ymatebol i anghenion ei aelodau. Mae'n chwarae rhan wrth gefnogi dysgu a chyfnewid rhwng cyfoedion a chynnull a hwyluso newid cadarnhaol.

#### **Llais cyfunol**

Mae Ff&GC yn meithrin cydlyniant yn y mudiad gyda nodau cyffredin, gan alluogi rhwydwaith sy'n tyfu i ffynnu ar ei gilydd. Mae Ff&GC yn gwasanaethu fel eiriolwr dros y rhwydwaith cyfan, gan gryfhau ei lais cyfunol.

## 2. LLEISIO'R ACHOS

RHOI DEFNYDD TIR DAN ARWEINIAD Y GYMUNED WRTH WRAIDD POLISI FEL BOD EI BOTENSIAL LLAWN I HYRWYDDO ADEILADU CYFOETH CYMUNEDOL, IECHYD Y CYHOEDD, UCHELGEISIAU SERO NET, ADFER NATUR, A CHYDNERTHEDD BWYD LLEOL, YN CAEL EI GYDNABOD A'I GYNNWYS YM MHOLISI LLEOL, CENEDLAETHOL A LLYWODRAETH Y DU.

### **Sylfaen dystiolaeth gadarn**

Ff&GC yw'r rhwydwaith cydnabyddedig ar gyfer cydweithio ag academia a phartneriaid uchel eu parch, gan gryfhau'r sylfaen dystiolaeth yn barhaus, meithrin fframwaith polisi mwy ffafriol, a denu cyllid trwy ddangos tystiolaeth o hygrdedd ein rhwydwaith.

### **Eiriolaeth drawsbleidiol**

Ff&GC yw'r cyfrwng cydnabyddedig ar gyfer y mudiad, gan sicrhau bod pob plaid wleidyddol yn clywed llais aelodau ar draws holl genhedloedd y DU, ac yn dangos atebion ymarferol i faterion polisi allweddol.

### **Sicrhau llunio polisiau cydgysylltiedig ar draws y llywodraeth**

Mae Ff&GC yn cysylltu'r dotiau ar draws gwahanol adrannau'r llywodraeth ym meysydd iechedd, bwyd, yr amgylchedd a datblygu economaidd i ddatblygu mwy o gysondeb polisi mewn defnydd tir dan arweiniad y gymuned.

### 3. CYNHWYSIAD RADICAL

MEITHRIN A DADLAU DROS FUDIAD TYFU CYMUNEDOL TEG A CHYNHWYSOL LLE NAD OES NEB YN CAEL EI EITHRIO'N STRWYTHUROL OHERWYDD EU CEFNDIR, HUNANIAETH, HIL, ANABLEDD NA DOSBARTH. GAN GYDNABOD BOD DEFNYDD TIR DAN ARWEINIAD Y GYMUNED YN FFORDD SYLFAENOL O HYRWYDDO TEGWCH A CHYNHWYSIANT.

#### **Sefydliad amrywiol**

Mae tîm staff ac ymddiriedolwyr Ff&GC yn cynrychioli amrywiaeth ein cymunedau ac yn chwilio am leisiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r sefydliad yn parchu'r gwahaniaethau rhwng unigolion a chymunedau. Rydym yn fwy pwerus, effeithiol a gwydn pan ddown at ein gilydd mewn cytgor â natur.

#### **Mannau awyr agored lle nad oes neb yn teimlo fel alltud**

Mae'r aelodaeth yn amrywiol, gan ddarparu lle diogel i bawb. Mae cyfleoedd i bobl o bob cefndir ffynnu, dod i adnabod ei gilydd a meithrin eu sgiliau unigol. Mae pawb wedi'u grymuso i gyfrannu a chynrychioli eu cymuned a'r mudiad ehangach.

#### **Herio rhwystrau strwythurol**

Mewn partneriaeth, rydym yn herio ffyrdd gwaharddol o weithredu mewn manau tyfu cymunedol; yn benodol, mynediad at dir, dylunio safleoedd, gwneud penderfyniadau, darparu gwasanaethau, polisi a datblygu sefydliadol. Rydym yn sylweddoli effaith gadarnhaol gweithio cydgysylltiedig dros gystadleuaeth a rhaniadau.

## SUT RYDYM NI'N GWEITHIO

Rydym yn credu ym mhŵer pobl yn gweithio gyda'i gilydd i ddod â newid cadarnhaol i'n cymunedau.

Mae'r pŵer hwn wedi trawsnewid mannau trefol, wedi darparu gwaith ystyrlon, wedi creu ymatebion dan arweiniad y gymuned i'r argyfyngau hinsawdd a natur, ac wedi cyfrannu at bolisi cadarnhaol y llywodraeth.

### RYDYM NI:

**Gofalgar a hawddgar** - rydym yn gofalu am bobl, cymuned, natur a'n planed. Mae gennym ni i gyd setiau unigryw o sgiliau a phrofiad i ymateb i anghenion ein cymuned a'n planed. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i greu mudiad amrywiol lle mae gan bawb le diogel a lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi.

**Rhannu a hael** - gyda'n gilydd, rydym yn ddylanwadol. Rydym yn creu cyfleoedd i ddathlu llwyddiannau ein gilydd a dysgu o'n profiad ar y cyd. Mae cyfranogiad gweithredol yn y rhwydwaith yn helpu pob fferm, gardd a lle tyfu i ffynnu.

**Arloesol a phenderfynol**- rydym yn rhannu ysbrydoliaeth a syniadau uchelgeisiol i wthio ffiniau. Rydym yn dod o hyd i ffyrdd creadigol o adeiladu byd gwell, mwy cysylltiedig sydd wedi'i wreiddio mewn cymuned.

**Yn falch o'n heffaith ar y cyd**- rydym yn dod o hyd i lawenydd wrth weithio ar y cyd ar gyfer newid cadarnhaol sy'n creu lleoedd lleol mwy bywiog, hanfodol a gwydn, gan gyfrannu at ddyfodol disgleiriach yn fyd-eang.

## SUT OLWG SYDD AR EIN HELODAU

Mae ein haelodau'n amrywiol iawn. Maent yn cynnwys ffermydd a reolir gan y gymuned, gerddi cymunedol, ffermydd a gerddi ysgolion, ffermydd gofal, prosiectau sy'n seiliedig ar randiroedd, perllannau cymunedol a phrosiectau compostio. Mae ein holl aelodau'n defnyddio cysylltiad â thir a natur i wella bywydau mewn ffyrdd dwys a phwerus.

### MAE EIN HELODAU'N CYNWYS:

#### **Ffermydd y Ddinas**

Mannau gwyrdd addysgol - gyda da byw a gerddi - sy'n cysylltu pobl y ddinas â ffermio, cynhyrchu bwyd a'r amgylchedd naturiol. Dechreuodd ein mudiad gyda'r Ffermydd Dinas cyntaf a sefydlwyd yn y 1970au.

#### **Gerddi Cymunedol / Perllannau a Rhandiroedd**

Mannau gwyrdd a thwf a sefydlwyd a reolir gan ac ar gyfer aelodau o gymuned leol. Mae'r prosiectau hyn yn dod â phobl ynghyd, ac yn creu mannau diogel lle gall pobl fwynhau'r awyr agored gyda'i gilydd.

#### **Ffermydd Gofal / Ffermydd Cymdeithasol**

Ffermydd sy'n darparu rhaglenni strwythuredig i bobl ag anghenion ychwanegol (e.e. anawsterau dysgu, anabledau corfforol neu iechyd meddwl). Mae'r prosiectau hyn yn ymgorffori cyd-gynhyrchu gyda buddiolwyr ac yn cyfrannu at ganlyniadau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol.

#### **Amaethyddiaeth Drefol / Mentrau Tyfu Bwyd.**

Mae'r rhain yn cynnwys gerddi marchnad, cynhyrchwyr bwyd trefol, mentrau tyfu hydroponig neu dan do, a mentrau bwyd er budd y gymuned. Maent yn canolbwyntio ar gynhyrchu bwyd lleol gyda chenhadaeth gymdeithasol ac amgylcheddol gref, gan gynnwys gweithio gyda gwirfoddolwyr.

#### **Garddwriaeth Therapiwtig/Prosiectau â Chymorth Anifeiliaid**

Prosiectau sy'n darparu garddio therapiwtig, neu ymyriadau/rhaglenni â chymorth anifeiliaid/ceffylau e.e. rhaglenni lles, neu ymyriadau o fewn llwybrau rhagnodi iechyd, iechyd meddwl neu gymdeithasol.

#### **Ffermydd Ysgol, Ffermydd Addysgol**

Ysgolion neu golegau sy'n gweithredu ffermydd a gerddi ar gyfer dysgu cwricwlwm, darpariaeth amgen, hyfforddiant galwedigaethol, a chymorth ADY.

#### **Prosiectau eraill sy'n seiliedig ar natur gydag agwedd gymunedol**

Mae ein haelodaeth yn eang ac yn cynnwys llawer o sefydliadau a phrosiectau sy'n rhannu cenhadaeth ein haelodau o gysylltu pobl â thir a chymuned, ond nad ydynt yn ffitio i'r categorïau uchod.